



YSGOL GYFUN GYMRAEG  
**GLANTAF**  
CORON GWLAD EI MAMIAITH

## Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf  
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**  
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090

ysgolgyfunlantaf@caerdydd.gov.uk

www.glantaf.cymru

3 Chwefror 2023

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

### Cefnogi addysg eich plentyn – Google Classrooms

Y cwestiynau mwyaf aml mae rhieni yn holi yw sut gallant gefnogi eu plentyn yn eu haddysg a sut maen nhw'n gwybod pa waith dosbarth a gwaith cartref sy'n cael ei osod. Mae rhieni'n gallu lawrlwytho ap *Google Classrooms* ar eu ffonau neu dabled a mewngofnodi gyda manylion cyfrif hwb eu plentyn. Mae mynediad yno i holl ystafelloedd dosbarth y disgybl ac unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rannu gan yr athrawon a'r pennaeth blwyddyn. Gall hyn fod yn offeryn defnyddiol iawn i chi fel rhieni. Mae yna hefyd lawer o apiau a gwefannau sy'n ddefnyddiol y gallwn eu hargymhell.

### Cymraeg:

Sillafu - Ap @ebol

Brawddegau - Ap @ebol

Aur am air - Ap Sillafu/spelling

Ap Geiriaduron (geiriadur Cymraeg / Saesneg)

Llyfrau Dwli - dwyieithog (amryw o lyfrau sy'n yn mynd i'r afael â gwahanol dechnegau gramadeg)

Llyfr 'Cer am Her' - Adnodd i helpu gyda darllen a sillafu

Llyfr 'Gwella'r Gair' - Cymorth i wella sgiliau ysgrifennu disgyblion

### Apiau gwerthfawr ar gyfer dyslecsia:

'Blending Board' - sillafu, geirfa

'Dyslexia Quest' - helpu gyda gwella cof

DD's Dictionary: Geiriadur Dyslecsia

'EasyReader' app (Dolphin) - Yn benodol ar gyfer pobl sydd â Dyslecsia

Reading Eggs

### Mathemateg / Rhifedd (gwefannau defnyddiol):

Sumdog

Numeracy Ninja

Times Tables Rockstars

Mathemateg.com

BBC Bitesize

Kahoot


CBAC: cyn-bapurau ac adnoddau

### Saesneg

[Great Literacy Websites for Parents and Kids](#)



Google Classroom



Tim Dadlau Ffrangeg Bl 12  
Felicitations Joe, Tom, Sylvie a Rafik!

### Eisteddfod Ysgol - 16 Chwefror Gerddi Soffia 9am – 2pm

Byddwn yn cynnal ein Eisteddfod Ysgol yn y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol yng Ngerddi Soffia ddydd Iau 16 Chwefror i holl fyfyrwyr Bl 7, 8, 9 a 12&13. Rydym yn argymhell yn gryf y dylai disgyblion wneud eu ffordd eu hunain i'r Ganolfan ac oddi yno, neu mae'r opsiwn o deithio ar eu bus ysgol arferol. *Fodd bynnag, nodwch y bydd y bysiau'n ymweld â Glantaf yn gyntaf (ar gyfer Bl 10 ac 11) cyn gwneud eu ffordd i Erddi Soffia. Bydd hyn hefyd yn wir am y daith adref.* Os na all disgyblion wneud eu ffordd eu hunain i'r Eisteddfod, yna dylent fynychu'r ysgol erbyn 7.45am a gallant deithio ar ein bysiau ysgol. Dylai'r disgyblion fynychu'r Eisteddfod mewn gwisg ysgol arferol ond gallant hefyd wisgo crys yn lliw'r llys (Dewi- Melyn; Dyfrig- Gwyrdd; Illtud- Coch; Teilo- Glas). Gofynnwn yn garedig i'r disgyblion ddod â phecyn bwyd a diodydd gan na fyddant yn gallu gadael yr Eisteddfod yn ystod y dydd i brynu bwyd. Disgwylir i Bl 10 ac 11 fynychu'r ysgol yn ôl yr arfer gan y byddant yn dilyn gwersi penodol ar gyfer paratoi ar gyfer arholiadau'r haf.

### Presenoldeb a phrydlondeb

Hoffwn ofyn unwaith eto am eich cefnogaeth i sicrhau bod presenoldeb disgyblion yn uchel a'u bod yn brydlon i'r ysgol yn y boreau. Rydym yn cefnogi ymgyrch Caerdydd yn llawn i sicrhau'r presenoldeb gorau, prydlondeb ac i dynnu sylw at bwysigrwydd presenoldeb uchel a'i berthynas â lles a chyrhaeddiad. Dyma ddata diddorol i'w hystyried:

Munudau'n hwyr y dydd yn ystod y flwyddyn ysgol	Gwerth dyddiau cyfartal o golli dysgu yn y flwyddyn ysgol
5 munud y dydd	3.4 diwrnod o golli y flwyddyn = 98.4% Presenoldeb
10 munud y dydd	6.9 diwrnod o golli y flwyddyn = 97.6% Presenoldeb
15 munud y dydd	10.3 diwrnod o golli y flwyddyn = 94.6% Presenoldeb
20 munud y dydd	13.8 diwrnod o golli y flwyddyn = 92.9% Presenoldeb
30 munud y dydd	20.7 diwrnod o golli y flwyddyn = 89.2% Presenoldeb

### Llongyfarchiadau!

Hoffem longyfarch Tomos Davis, wrth dderbyn cynnig i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt i astudio Gwyddorau Naturiol. Llongyfarchiadau hefyd i dîm siarad cyhoeddus Bl13 a enillodd rownd rhanbarthol cystadleuaeth y Rotari, da iawn Hannah Boore, Hannah Williams ac Elen Morlais.

### Digwyddiadau Tymor y Gwanwyn

Hoffem eich atgoffa o ddigwyddiadau sydd ar y gweill yn ystod y tymor hwn:

6 Chwefror	Lluniau Bl7, Bl11 a Bl13 – unigolion, grwpiau cyfeillgarwch a llun blwyddyn
6-10 Chwefror	Bl 11 Arholiadau llafar grŵp Saesneg
10/13 Chwefror	Bl 6 Dyddiau pontio Celf Mynegiannol
9 Chwefror	Bl 10 Noson Rhieni (i'w chynnal yn yr ysgol 3.15 – 6.30pm)
14 Chwefror	Rhybudd ymlaen llaw – gweithredu diwydiannol arfaethedig gan athrawon (mwy o wybodaeth i ddilyn)
15 Chwefror	Bl 12 Adroddiadau Llawn
16 Chwefror	Eisteddfod Ysgol
17 Chwefror	Dydd Mamiaith y Byd – thema Blwyddyn 7

## Clwb gwyddbwyll

Mae yna glwb newydd yn dechrau i flynyddoedd 8 a 9 bob nos Lun am 2:50 - 3:50. Croeso i bawb!

## Cyfeillion Glantaf - Twmpath Dawns, nos Wener, 24 Mawrth 2023

Tocynnau'n gwerthu'n gyflym!!

Cofiwch brynu eich tocynnau drwy 'Parent pay'.



Hoffwn hefyd eich atgoffa, os ydych yn dymuno cysylltu â ni ynglŷn ag unrhyw eglurhad, esboniad neu ymholiad, gallwch fynd at ein gwefan am y manylion cyswllt diweddaraf ar gyfer y Tîm Arwain a thîm Arweinwyr Cynnydd a Lles.

Yr eiddoch yn gywir,

Catrin Arnopp  
Pennaeth Cynorthwyol / Cydlynnydd ADY  
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



Tîm Siarad Cyhoeddus BI13